MENTER CAERDYDD

"HYRWYDDO AC EHANGU'R DEFNYDD O'R GYMRAEG YNG NGHAERDYDD"

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2023/24

menter caerdydd



# GAIR GAN Y CADEIRYDD

Pum mlynedd o Gadair Menter Caerdydd. Sut mae gwerthuso'r cyfnod allweddol hwn? Cyfnod sy'n pontio'r pandemig blin ond un a welodd Menter Caerdydd yn addasu yn fedrus a chamu o'r blocs yn dra egniol.
Mae twf yr iaith Gymraeg yng Nghaerdydd yn amlwg i mi fel un un sydd wedi fy magu yma dros hanner canrif. Ond mae'r cynnydd ystadegol yn cuddio'r ffaith bod cynyddu defnydd yr iaith, sef amcan Menter Cerdydd, yn anoddach i'w gadarnhau ac yn gymhlethach i'w wireddu. Rwy'n fam i fachgen yn ei arddegau. Dwi'n deall.
Wrth gwrs, nid oes modd gorfodi nôd Menter Caerdydd ar siaradwyr a dysgwyr Cymraeg Caerdydd ond mae ennillion amlwg i'w gweld yn nhŵf darpariaeth y Fenter, yn niferoedd y rhai sy'n ymuno yn ein gweithagareddau ac yn syml iawn ar wynebau hapus y torfeydd sy'n mynychu – a hynny fwyaf amlwg, wrth gwrs, ar benwythnos Tafwyl. Dyma yw'r balchder sydd gennyf dros waith Menter Caerdydd.

Mae na werthfawrogiad a chydnabyddiaeth wedi dod mewn ffurf eraill – o'n partnerniaiad, o'n noddwyr cynyddol ac hefyd o gyrff gwobrwyo. Esiampl o hyn yw'r ffaith ein bod wedi ein gwobrwyo yn flynyddol ers 5 mlynedd am ein gwaith gan gylchgrawn 'Cardiff Life' gan gynnwys y wobr Platinwm yn 2023 o blith holl sefydliadau Caerdydd - roedd hynny'n dipyn o gamp i elusen mor fach. Ac eto y cydanbyddiaeth o'r Mentrau eraill, rheiny sy'n deall yr heriau, sy'n golygu mwy efallai. Eleni yn ngowbrau Mentrau Iaith Cymru ennillom Wobr Rhagoriaeth am ein rhaglen 'Yn Cyflwyno'. Dyma raglen sydd wedi datblygu a rhoi llwyfan i fandiau ifanc y ddinas – ac mae'r bandiau yn dal i gigio a recordio o'r hwb allweddol cynnar yma rhoddodd Menter Caerdydd i'w bodolaeth. Rhaglenni fel hyn sy'n sbarduno'r genhedlaeth nesaf i ymfalchio yn y Gymraeg a'i ddefnyddio!

Y straeon bychan tu ôl i'r penawdau sy'n gwneud gwahaniaeth cynyddol i'n cynulleidfaoedd newydd:– darpariaeth bws i Tafwyl yn anog teuluoedd na fyddai wedi mwynhau'r Wyl i wneud hynny heb gyfyngiad pris y daith; creu perthynas o blith grwp o bobl hyn i weithgareddau unwaith y mis yn Rhiwbeina; twf darpariaeth cynllun chwarae Bwrlwm a thrydydd ffrwd gofal plant dros y gwyliau yn nwyrain y ddinas. Y gweithgareddau hyn ac eraill sy'n gwthio ffiniau ein cynulleidfa ac yn cenhadu am ein hiaith, y berthynas a'r boddhad sydd i'w gael o'i herwydd.

I bob cyfnod mae na ddechrau, mae na heriau, mae na uchafbwyntiau ac mae na ddiweddglo. Mae'r diweddglo yna i mi fel Cadeirydd ar ddiwedd cyfnod llawn sydd wedi gweld tŵf allbwn, gwerthfawrogiad a chydnabyddiaeth y Fenter. Diolchaf i gyd Aelodau'r Bwrdd, i'r ddau Brif Weithredwr talentog a diflino dwi wedi mwynhau gweithio â nhw ac i staff ymroddgar a chreadigol Menter Caerdydd am wneud y cyfnod yn un hwylus a balch.

**CADEIRYDD- JOANNA ADAMS**



# GAIR GAN Y PRIF WEITHREDWR

Bu 2023-24 yn flwyddyn brysur dros ben i'r Fenter gan barhau gyda llawer o'r ddarpariaeth hanesyddol yn cynnwys cynlluniau gofal, cynlluniau chwarae, darpariaeth i oedolion, gweithgareddau chwaraeon, rhaglen o weithgareddau diwylliannol ac wrth gwrs Tafwyl. Yn ystod y flwyddyn ymgysylltwyd gyda dros 70,000 o ddefnyddwyr gwasanaeth a gobeithiwn bod ein gwaith wedi bod yn fodd i nifer fawr o bobl ymgysylltu gyda'r Gymraeg o fewn y ddinas mewn ffordd ystyrlon a gwerthfawr.

Un o brif nodweddion Menter Caerdydd yw'r parodrwydd i gydweithio gydag eraill er lles y Gymraeg o fewn y ddinas ac unwaith eto roedd hi'n flwyddyn o gefnogi sefydliadau, grymuso cymunedau, hywryddo gweithgareddau eraill a chyfrannu gymaint i waith parntneriaieth gyda Cyngor Caerdydd, Cwlwm Busnes Caerdydd a Dysgu Cymraeg Caerdydd.

O ran datblygiadau newydd gwnaethpwyd y penderfyniad mawr i symud Tafwyl i gartref newydd ym Mharc Bute. Er y llwyddiant yn y Castell roedd yr wyl wedi gordyfu'r safle ac roedd symud i leoliad mwy yn caniatau i ni ddatblygu ym mhellach ac yn agor y drws i gydweithio gyda phartneriaid newydd a chyffroes er mwyn ehangu'r arlwy a'r gynulleidfa.

Braf hefyd oedd cael sefydlu perthynas newydd gyda Gwasanaeth Addysg Oedolion Cyngor Caerdydd er mwyn sefydlu darpariaeth bwysig ac angenrheidiol trwy gyfrwng y Gymraeg i oedolion o fewn y ddinas. Byddwn yn edrych i adeiladu ar hyn yn y flwyddyn i ddod.
Cyn cloi, hoffwn ddiolch i'r holl staff am eu hymroddiad arbennig wrth weithio mor barod i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn ein dinas. Yn ogystal â hynny mae fy niolch yn fawr i dîm o Gyfarwyddwyr cefnogol sydd mor barod eu cymwynas, cyngor a chymorth. Bellach fyth 2023-24 fydd y flwyddyn lawn olaf i Joanna Adams fel Cadeirydd wrth iddi idlio'r awennau wedi sawl blwyddyn fel Cadeirydd mawr yw ein diolch i gyd iddi am fod yn Gadeirydd mor gefnogol i Fenter Caerdydd ar hyd y blynyddoedd.

**PRIF WEITHREDWR**
**HEULYN REES**





# PRIF WASANAETHAU MENTER CAERDYDD

| | | |
|---|---|---|
| TEULU | PLANT | POBL IFANC |
| OEDOLION (gan gynnwys dysgwyr) | TAFWYL | CAERDYDD DDWYIEITHOG |

## Blaenoriaethau'r Rhaglen Waith 2023-24

- Ehangu ar gynlluniau Gofal Menter Caerdydd
- Datblygu'r rhaglen o weithgareddau Ieuenctid ar draws y ddinas
- Cydlynu a chynnal rhaglen o gyrsiau hamdden i Oedolion
- Cynnal Tafwyl fel dathliad o'r Gymraeg o fewn y ddinas
- Cynnal gweithgareddau gyda cymunedau ethnig leiafrifol y ddinas






# PLANT A PHOBL IFANC

Mae'r ddarpariaeth wedi bod yn amrwyiol iawn yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys cynlluniau gofal plant, sesiynau chwarae agored mewn lleoliadau amrywiol ar draws y ddinas, clybiau, gweithdai, digwyddiadau celfyddydol, sesiynau amser stori a grwpiau i rieni a phlant.

GWEITHGAREDD 548

MYNYCHWYR: 13,827



# OEDOLION A'R GYMUNED



Gwelodd y flwyddyn dwf yn y ddarpariaeth o addysg oedolion diolch i nawdd Cyngor Caerdydd. Yn ogystal parhawyd i ddarparu rhaglen eang o dan nawdd y Loteri Treftadaeth.
Mae'r ddapariaeth wedi cynnwys elfennau megis sgyrsiau ar-lein, teithiau cerdded, nosweithiau comedi, gweithdai, perfformiadau cerddorol, dosbarthiadau addysg oedolion, gigs a llawer mwy. Cydweithiwyd gyda Cwlwm Busnes caerdydd i genfnogi'r rhwydwaith gymdeithasoo busnesau Cymraeg Caerdydd

GWEITHGAREDD 202

MYNYCHWYR 3,190



# IEUENCTID




Mae'r ddarpariaeth CFTi (Menter Caerdydd, Yr Urdd a'r Gwasanaeth Ieuenctid) wedi mynd o nerth i nerth. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y ddarpariaeth ar draws y ddinas yn ogystal a chynnydd mewn gweithgarwch ymhlith ysgolion ail y ddinas. Mae'r ddarpariaeth wedi cynnwys gigs, clybiau ieuenctid, gweithgareddau ar ôl ysgol, teithiau a ffair yrfaoedd.

GWEITHGAREDD 182

MYNYCHWYR 5,430

CFTi

# TAFWYL 2023

Yn dilyn gor-dyfu ein cartref yn y castell aethpwyd a'r wyl i Barc Bute am y tro cyntaf yn 2023 gan alluogi cydweithio gyda mwy o bartneriaid a darlledu'r wyl yn fyw ar S4C am y tro cyntaf.









"DIOLCH ENFAWR AM DDARPARU Y BWS AR GYFER Y TAFWYL DYDD SUL. ROEDD HYN YN GYNNIG CAREDIG IAWN ER MWYN GALLUOGI I DEULUOEDD MWYAF DI-FRIENTIEDIG DDERBYN MYNEDIAD I'R WYL. ROEDD DARPARU'R BWS YN SICR WEDI CYNYDDU EIN RHIFAU"

**YMWELWYR: 32,000**

**GWERTH ECONOMAIDD £1,800,000+**

**52 BAND**

**50+ NODDWR**

## DIOLCH YN FAWR

# CYDNABYDDIAETH I WAITH MENTER CAERDYDD










## ADBORTH AM EIN GWAITH:

**Ydy'r gwasanaeth Bwrlwm cyfrwng Cymraeg yn bwysig i chi? Pam?**
**Is the Welsh medium Bwrlwm play scheme important to you? Why?**

Yes, because my son goes to a Welsh school, it's good to keep up in the holidays.
Not spoken at home due to Arabic speaking father

"Yes so my child can be exposed to welsh outside of term time"

## Darpariaeth i oedolion hyn........

"Mae cael bod yn rhan o weithgareddau Menter Caerdydd ar Zoom wedi rhoi pleser arbennig i mi. Gan fy mod bron yn 80 oed, yn byw ar fy mhen fy hun a ddim yn hoffi mynd allan yn y nos, mae mor wych bod y sgyrsiau/darlithoedd i'w cael ar fy aelwyd.... Fel person sydd ar bensiwn bach, mae cael y gwasanaeth yma yn rhad neu am bris gostyngol yn help eithriadol."

# DIOLCH I'N HOLL BARTNERIAID, NODDWYR, CEFNOGWYR A DEFNYDDWYR GWASANAETH!










## mentercaerdydd.cymru

Rhif elusen:1098606 Rhif Cwmni: 4576565

Caerdydd Ddwyieithog Bilingual Cardiff

CARDIFF CAERDYDD

menter caerdydd

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government